Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# Deiseb P-04-433
# Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Ionawr 2020

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ystyriaeth y Pwyllgor Deisebau o ddeiseb yn galw am gyflwyno teledu cylch cyfyng gorfodol mewn lladd-dai yng Nghymru.

### Y ddeiseb

**1.** Cyflwynwyd deiseb P-04-433: Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2012 gan Kate Fowler ar ran Animal Aid, ar ôl casglu 1,066 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn orfodol i osod teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai er mwyn helpu milfeddygon i reoli a monitro yn well, darparu deunydd ffilm er budd hyfforddiant ac ail-hyfforddi, atal camdrin anifeiliaid, fel y ffilmiwyd gan Animal Aid, ac fel tystiolaeth ar gyfer erlyniad mewn achosion o gamdrin.[1]

## 2. Ystyriaeth gychwynnol

**2.** Ystyriwyd y ddeiseb yn gyntaf gan y Pwyllgor Deisebau yn y Pedwerydd Cynulliad, a chafwyd gohebiaeth rhwng y Pwyllgor â John Griffiths AC, Gweinidog

[1] P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y pryd. Yn ystod y cyfnod hwn, nododd y Gweinidog fod teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai yn fater sy'n cael ei drafod gan Lywodraeth Cymru, a bod ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod 2012 wedi dangos cefnogaeth iddo.[2] Fodd bynnag, rhybuddiodd y Gweinidog y byddai angen ychwanegu adnoddau i sicrhau bod gosod systemau teledu cylch cyfyng yn cael yr effaith a ddymunir, a allai olygu y bydd sylw'n cael ei ddargyfeirio oddi ar faterion eraill, ac y byddai angen i Lywodraeth Cymru ddangos bod sail resymol i'r penderfyniad i gyflwyno deddfwriaeth.[3] Nododd y Gweinidog y byddai'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r diwydiant a sefydliadau lles i drafod y mater ymhellach.

**3.** Yn dilyn hynny, gofynnodd Llywodraeth Cymru am gyngor mewn perthynas â monitro nad oes neb yn sylwi arno mewn lladd-dai, gan gynnwys deunydd ffilm teledu cylch cyfyng, gan y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC). Rhoddodd y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm, sy'n gorff yn y DU, y cyngor hwn i Lywodraeth Cymru a chyrff datganoledig eraill ym mis Chwefror 2015.[4] Roedd y cyngor yn argymell yn gryf y dylai'r holl weithredwyr busnes bwyd osod teledu cylch cyfyng ym mhob rhan o'u hadeiladau lle y cedwir anifeiliaid byw, a lle y caiff anifeiliaid eu stynio a'u lladd, fel rhan o ddull cyfannol o sicrhau safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid.

**4.** Cyhoeddodd Rebecca Evans AC, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar y pryd, ddatganiad ym mis Hydref 2015:

> "Rwy'n credu'n gryf y dylai pob lladd-dy yng Nghymru osod systemau teledu cylch cyfyng yn unol ag argymhellion y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm. Rwy'n benderfynol o sicrhau bod hyn yn digwydd. Rwy'n gobeithio'n fawr y gellir cyflawni hyn gyda chefnogaeth lawn y diwydiant yng Nghymru. Dyna pam yr wyf yn gwahodd Cwmnïau Busnesau Bwyd i gymeryd rhan mewn grŵp gorchwyl a gorffen gyda'r Llywodraeth i ddatblygu'r agenda hon a nodi beth arall ellir ei wneud i wella safonau."[5]

[2] Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy at y Pwyllgor, 19 Rhagfyr 2012

[3] Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy at y Pwyllgor, 1 Mawrth 2013

[4] Y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm, FAWC opinion on CCTV in slaughterhouses, 3 Chwefror 2015

[5] Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, 8 Hydref 2015

# 3. Trafod yn ystod y Pumed Cynulliad

**5.** Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016, daeth y Pwyllgor Deisebau presennol yn gyfrifol am drafod y ddeiseb.

**6.** Cyhoeddwyd adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd – y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiogelu Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd – ym mis Hydref 2016. Daeth hyn i'r casgliad bod "nifer o reolaethau eisoes ar waith mewn lladd-dai yng Nghymru", gan gynnwys "presenoldeb parhaus milfeddygon swyddogol a chofnodi achosion bob dydd", a bod "teledu cylch cyfyng yn offeryn ychwanegol defnyddiol". Fodd bynnag, ei brif argymhellion oedd fel a ganlyn:

> "Based on the number and type of welfare incidents in abattoirs recorded by the FSA in 2015, particularly looking at the split of incidents between abattoirs that already use CCTV and those that do not, and based on the conclusions reached by FAWC in their extensive Opinion, there is simply not sufficient basis on which to make CCTV a mandatory requirement in abattoirs in Wales."[6]

**7.** Darparodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen "restr wirio" i helpu lladd-dai i nodi pa un a fyddent yn elwa ai peidio o gael teledu cylch cyfyng ym mhob rhan o'u hadeiladau, neu mewn rhai rhannau.

**8.** Yn dilyn amrywiaeth o feirniadaeth gan y deisebwyr ac eraill, a chwestiynau gan y Pwyllgor, cydnabu Llywodraeth Cymru ddechrau 2017 fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi trafod y defnydd o deledu cylch cyfyng mewn lladd-dai o safbwynt y diwydiant, ac wedi cael llawer o sylwadau gan ddwy ochr y ddadl.[7]

**9.** O ganlyniad i hyn, gofynnwyd i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, corff a benodwyd yn gyhoeddus, fynegi "barn annibynnol" am yr adroddiad a'r mater ehangach. Daeth i'r casgliad a ganlyn hefyd:

> "[...] based on the statistics presented concerning the number and type of welfare incidents in slaughterhouses, and the important role played

[6] Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiogelu Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd, The Need for and Possible Implementation of a Workable System of CCTV in All Slaughterhouses in Wales, Hydref 2016

[7] Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip at y Pwyllgor, 20 Mawrth 2017

> by smaller slaughterhouses in parts of Wales, that currently there is not sufficient basis upon which to make CCTV a mandatory requirement."[8]

**10.** Ym mis Mawrth 2018, ysgrifennodd Lesley Griffiths AC,[9] Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, at y Pwyllgor Deisebau yn nodi safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru ar y mater hwn:

> "There are a number of controls already in place in slaughterhouses and official veterinarians are present, overseeing welfare and compliance with regulations. The larger slaughterhouses, which process the majority of animals, have CCTV and official veterinarians are able to access footage if they suspect welfare standards are not being met."[10]

**11.** Mewn ymateb, dadleuodd y deisebwyr fod y dull hwn yn aneffeithiol yn ymarferol:

> "It is important to be reminded of the shortcomings of this voluntary approach. OVs [official veterinarians] can access footage only in slaughterhouses that have cameras, and where those cameras are installed in the correct parts of the slaughterhouse, turned on, facing the right way, and where the footage is retained. Moreover, it depends on FBOs [Food Business Operators] voluntarily handing over that footage. The FSA [Food Standards Agency] admitted in April 2016 that 33 slaughterhouses in England and Wales were refusing to hand over their footage when requested by regulators."[11]

**12.** Gwnaethant awgrymu hefyd fod y diffyg tystiolaeth o ran achosion o dorri rheolau lles anifeiliaid yng Nghymru, y cyfeiriwyd ato gan grwpiau blaenorol ac Ysgrifennydd y Cabinet, oherwydd y ffaith nad oedd unrhyw ymchwiliadau cudd wedi cael eu cynnal mewn lladd-dai yng Nghymru ac nad oedd yn arwydd o gyd-destun gwahanol na safonau gwell.

**13.** Fel rhan o'i gohebiaeth ym mis Mawrth 2018, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod y Grŵp Fframwaith wedi cefnogi'r dyhead i gael teledu cylch cyfyng ym mhob lladd-dy yng Nghymru. O ganlyniad, nododd y byddai swyddogion yn gweithio gyda'r diwydiant "i gymryd camau pellach" i ddiogelu lles anifeiliaid. Mewn Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd yr un mis, cyhoeddodd

[8] Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at y Pwyllgor, 13 Mawrth 2018
[9] Newidiwyd y teitl i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ym mis Rhagfyr 2018
[10] Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at y Pwyllgor, 13 Mawrth 2018
[11] Llythyr gan Animal Aid at y Pwyllgor, 4 Ebrill 2018

Ysgrifennydd y Cabinet lansiad Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd i ddarparu pecyn o gymorth grant ar gyfer lladd-dai bach a chanolig yng Nghymru. Dywedwyd bod hyn yn "cynnwys buddsoddiad cyfalaf ac yn darparu cyngor ar les anifeiliaid, gwella busnes a materion technegol". Mewn perthynas â theledu cylch cyfyng, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y canlynol:

> "Bydd y grant hefyd yn helpu'r busnesau hyn i osod a gwella systemau monitro teledu cylch cyfyng. Rwyf am helpu busnesau i roi systemau ar waith tra bo Lloegr yn llunio deddfwriaeth ar gyfer systemau teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai. Rwyf am i ladd-dai Cymru fod yn gwbl barod wrth imi barhau i archwilio cyfleoedd i gyflwyno deddfwriaeth yn y tymor hir."[12]

**14.** Croesawyd hyn yn ofalus gan y deisebwyr:

> "While we welcome the Minister's plans to help smaller Welsh slaughterhouses improve welfare, we feel certain that in order to detect and deter abuses and poor practice – and to achieve full CCTV coverage across the sector as well as throughout individual slaughterhouses – legislation will be required. We see this move very much as a first step towards that."[13]

**15.** Yn dilyn cyfarfod ar 5 Mehefin 2018, ysgrifennodd y Pwyllgor Deisebau at Ysgrifennydd y Cabinet i ddatgan ei gefnogaeth yn ysgrifenedig mewn ymateb i alwad y ddeiseb i wneud teledu cylch cyfyng yn orfodol mewn lladd-dai yng Nghymru.

**16.** Yn dilyn hynny, ar 3 Gorffennaf 2018 cododd y Pwyllgor y mater hwn gydag Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar mewn perthynas â sawl deiseb.

**17.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet unwaith eto fod y manteision o gael deddfwriaeth yn y maes hwn yn parhau i gael eu hystyried. Fodd bynnag, nododd fod gan y mwyafrif o ladd-dai yng Nghymru deledu cylch cyfyng ac, am fod y rhai hynny yn cynnwys adeiladau mwy, fod mwyafrif yr anifeiliaid yn cael eu lladd mewn adeiladau sydd eisoes yn defnyddio teledu cylch cyfyng. Nododd hefyd fod diffyg tystiolaeth o broblem yn fater i'w ystyried:

[12] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, £1.1 miliwn i wella lladd-dai bach a chanolig, 22 Mawrth 2018

[13] Animal Aid at y Pwyllgor, 22 Mai 2018

> "We've got incredibly high animal welfare standards. I have not received any complaints about any of the abattoirs. I've had a bit of speculation, but what I've always said is, 'Come back to me with evidence and we'll look into this', and I haven't had that. So, I think it's better to work in partnership with the sector."[14]

**18.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod diffyg cyllid wedi'i godi gyda hi fel rhwystr o ran gosod teledu cylch cyfyng yn ehangach, ac, felly, mai ei blaenoriaeth ar y pryd oedd cyflwyno'r cynllun grant. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y byddai'r cynllun yn darparu cymorth ehangach ac nid cyllid yn unig:

> "And, as part of the package of this scheme, they will be given advice around animal welfare as well as business advice. It's not just about CCTV for me. You also must remember that there are always official veterinarians when slaughter takes place, so I think we've got lots of protection there already. But, as I say, take that barrier away, because that's what was raised with me by a couple of people, put the funding there and we'll take it from there, but I have not ruled out making it mandatory."[15]

**19.** Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch monitro'r defnydd o deledu cylch cyfyng mewn lladd-dai, nododd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "There are only 24 abattoirs in the whole of Wales, so it will be very easy to monitor."[16]

**20.** Er hynny, mae Animal Aid a David Grimsell, aelod o'r cyhoedd, a ysgrifennodd at y Pwyllgor sawl gwaith, wedi dadlau yn erbyn y diffyg tystiolaeth.

> "The Cabinet Secretary has also sought to imply that she has no evidence of welfare at slaughter issues. She referred at the meeting to there only being 'some speculation', yet this is very disingenuous indeed. In England thorough undercover investigations revealed that in 13 out of 14 slaughterhouses investigated there were serious and widespread breaches of welfare regulations and, in many cases, overt cruelty. This evidence was supplied to the Food Standards Agency and prosecutions have followed from it. While it is true that similar undercover investigations have not been undertaken in Wales, it is

[14] Cofnod y Trafodion, 3 Gorffennaf 2018, paragraff 164
[15] Cofnod y Trafodion, 3 Gorffennaf 2018, paragraff 170
[16] Cofnod y Trafodion, 3 Gorffennaf 2018, paragraff 179

> overwhelmingly likely that similar problems exist here too. After all Welsh slaughterhouses process very large numbers of animals, they do so using plants that operate as those in England do, they have the same purported 'controls' administered by the Food Standards Agency, and they are even often run by the same companies."[17]

**21.** Awgrymodd y ddwy ochr hefyd ei bod yn annhebygol y byddai cynllun gwirfoddol ar ei ben ei hun yn debygol o arwain at ddigon o fesurau diogelu mewn perthynas â lles. Dywedodd Animail Aid y canlynol wrth y Pwyllgor:

> "And while we thank the Minister for her actions to promote voluntary uptake for CCTV, we should remind her that the voluntary system did not work in England, which is why Defra finally acted to make cameras mandatory."[18]

**22.** Dywedodd David Grimsell na fyddai'r cyllid a fyddai ar gael i'r diwydiant yn ddigonol oni bai fod meini prawf neu ganllawiau ychwanegol yn cyd-fynd ag ef:

> "Some funding to be used or not to facilitate CCTV, without requirements relating to siting and usage, without requirements relating to access and monitoring of footage and on a voluntary basis avoids the issue and fails to comprehensively protect the welfare of animals at slaughter in Wales."[19]

**23.** Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet, ysgrifennodd y Pwyllgor i ofyn am sicrwydd y byddai pob lladd-dy yn cael ei annog i wneud cais am y cyllid grant sydd ar gael i osod teledu cylch cyfyng, ac y byddai'r rhai sy'n dewis peidio â gwneud cais yn cael eu monitro'n agos. Cadarnhaodd ymateb Ysgrifennydd y Cabinet fod holl weithredwyr lladd-dai bach a chanolig yn cael gwybod am y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, gan nodi'r canlynol:

> "Abattoirs that do not apply for grant funding will continue to be monitored closely through the controls already in place which ensure animal welfare standards remain high in Welsh slaughterhouses."[20]

**24.** Ar ôl trafod y dystiolaeth a gafwyd erbyn hynny, ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Hydref 2018 i ailadrodd y dylai Llywodraeth Cymru wneud teledu cylch cyfyng yn orfodol mewn lladd-dai yng Nghymru. Gofynnodd y

---

[17] David Grimsell at y Pwyllgor, 5 Medi 2018

[18] Animal Aid at y Pwyllgor, 18 Medi 2018

[19] David Grimsell at y Pwyllgor, 5 Medi 2018

[20] Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i'r Pwyllgor, 18 Awst 2018

Pwyllgor hefyd am fanylion y lladd-dai yng Nghymru heb deledu cylch cyfyng wedi'i i osod.

**25.** Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r nifer sy'n cael cyllid yn cael ei hadolygu, ond nododd y canlynol:

> "I do not have a definitive list of all slaughterhouses in Wales without CCTV in place."[21]

**26.** Anfonwyd ymateb ar wahân i'r Pwyllgor a roddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth a oedd yn dangos y canlynol:

- nid oedd teledu cylch cyfyng wedi'i osod mewn 14 lladd-dy yng Nghymru;
- nid yw'r Llywodraeth yn cadw ffigurau ynghylch nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd yn flynyddol mewn lladd-dai heb deledu cylch cyfyng wedi'i osod;
- nid oedd telerau ac amodau'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn cynnwys manylebau yn ymwneud â gosod a nifer y camerâu, faint o amser y byddai'r deunydd ffilm yn cael ei gadw, a mynediad at recordiadau.[22]

**27.** Mewn ymateb i ddeiseb arall (gweler adran 5), cafwyd diweddariad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ym mis Hydref 2019. Nododd hyn fod y Cynllun hwn wedi agor i ddatganiadau o ddiddordeb cychwynnol ar 30 Medi 2018, a'i fod wedi ennyn ymateb cadarnhaol gan ladd-dai, a bod y datganiadau bellach yn symud i geisiadau llawn, gyda dyddiad cau ar gyfer y rhain ym mis Ionawr 2020. Dywedodd y Gweinidog hefyd:

> "Mae ymgeiswyr llwyddiannus y cynllun yn derbyn canllawiau ar osod a rheoli teledu cylch cyfyng, a disgwylir iddynt ddilyn protocol wedi'i ddatblygu a'i gytuno ar y cyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd a chyrff y diwydiant i alluogi milfeddygon swyddogol i gael mynediad at recordiadau teledu cylch cyfyng. Bydd prosiectau sy'n derbyn cyllid grant yn cael eu harchwilio pan fyddant wedi eu cwblhau, ac oes

---

[21] Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at y Pwyllgor, 17 Hydref 2018

[22] Ymateb Llywodraeth Cymru i Gais Rhyddid Gwybodaeth ATISN 12673 – Lladd anifeiliaid yng Nghymru, 31 Hydref 2018

> tystiolaeth nad yw'r protocolau yn cael eu dilyn ar draws y diwydiant, byddaf yn barod i gyflwyno deddfwriaeth. "[23]

**28.** Yn ystod ystyriaeth y Pwyllgor o'r ddeiseb, bu datblygiadau perthnasol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Ar 4 Mai 2018 daeth deddfwriaeth i rym a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy yn Lloegr gael teledu cylch cyfyng.[24] Roedd yn ofynnol i bob lladd-dy gydymffurfio â'r gyfraith newydd erbyn 5 Tachwedd 2018, a lluniodd Llywodraeth y DU ganllawiau hefyd a oedd yn cynnwys gofynion mewn perthynas â gweithredu camerâu, cadw recordiadau a'u hargaeledd i'w harchwilio.

**29.** Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth i wneud teledu cylch cyfyng yn orfodol ym mhob lladd-dy yn yr Alban, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater.[25]

**30.** Yr un mis, cafodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Gymdeithas Milfeddygon Prydain a oedd o blaid gwneud recordiadau teledu cylch cyfyng yn orfodol ym mhob lladd-dy yng Nghymru. Mae datganiad polisi a gafwyd gan y sefydliad yn nodi fel a ganlyn:

> "BVA considers that all slaughterhouses should be required to install CCTV in all areas where live animals are kept and killed, in order to provide a clear and uninterrupted recording of all activities within these areas.
>
> [...] The CCTV footage should be regularly observed and verified according to an agreed protocol and should be used as an additional training, observing, verifying, and enforcement tool to ensure the relevant legal requirements are met and high animal welfare standards are maintained.
>
> [...] It is recommended that OVs as well as other enforcement officers must have access to any CCTV footage and this should be written into UK legislation."[26]

---

[23] Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at y Pwyllgor, 22 Hydref 2019

[24] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU, CCTV becomes mandatory in all abattoirs in England, 4 Mai 2018

[25] Llywodraeth yr Alban, Animal welfare improved, 9 Ionawr 2019

[26] Datganiad polisi Cymdeithas Milfeddygon Prydain: Teledu Cylch Cyfyng mewn lladd-dai

# 4. Ffilmio cudd yng Nghymru

**31.** Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd Animal Aid honiadau a thystiolaeth fideo a gafwyd o ddeunydd ffilmio cudd mewn lladd-dy yng Nghymru, Farmers Fresh yn Wrecsam. Cafodd hyn sylw yn y cyfryngau ddechrau mis Medi a chafodd ei rhoi i'r Pwyllgor fel cyflwyniad ysgrifenedig ar 17 Medi 2019.[27]

**32.** Mae Animal Aid yn honni bod ei "ymchwilwyr" wedi cofnodi pedair set o ddeunydd ffilm yn y lladd-dy rhwng 26 Mawrth a 3 Mehefin 2019, sy'n dangos defaid yn cael eu trin yn y lladd-dy mewn dau brif leoliad: y man llwytho ar gyfer y cludfelt tuag at y llinell; a'r man stynio a lladd ei hun.

**33.** Mae'n yn mynegi nifer o bryderon o ran yr arferion a welir yn y deunydd ffilm ac yn tynnu sylw at enghreifftiau lle roedd y canlynol yn digwydd:

> "Sheep were dragged along by their throats and pulled by their ears, picked up by their fleeces, as well as being kicked, slapped, shouted at, or kneed roughly into the mouth of the conveyer restrainer. When animals became 'stacked' on top of each other in the conveyer, they were often pulled backwards by their legs or left to travel upside down in the conveyer."[28]

**34.** Yn y man lladd ei hun, mae'n nodi bod y ffilm yn dangos amrywiaeth o enghreifftiau lle cafodd anifeiliaid eu cam-drin, neu enghreifftiau lle nad yw'r stynio na'r lladd yn cael ei wneud mewn modd priodol. Mae'n yn tynnu sylw at yr enghreifftiau a ganlyn:

- "A worker fails to properly stun a sheep, who surges forwards onto the cutting table. Two workers pin her down, and whilst she would appear to be fully conscious, her throat is cut."
- "The stunning process was often utterly incompetent. Workers were seen misapplying tongs to the animals' necks, snouts and faces and even to the leg of an animal on one occasion."
- "Many stuns appeared very brief, often just a second or less, and there appeared to be no checks for signs of consciousness. We are deeply concerned that some of the animals may have been

[27] Animal Aid i'r Pwyllgor, 17 Medi 2019
[28] Animal Aid i'r Pwyllgor, 17 Medi 2019

> inadequately stunned and therefore may have been conscious when they went to the knife."[29]

**35.** Mae Animal Aid yn cydnabod ei bod yn ymddangos bod gan Farmers Fresh deledu cylch cyfyng yn ei adeilad. Mae'n dadlau bod hyn yn dangos pwysigrwydd ffactorau a phrosesau eraill a ddylai fynd ochr yn ochr â gwneud teledu cylch cyfyng yn orfodol:

> "Of course, cameras alone do not deter law-breaking, and unless the footage is properly monitored, Food Business Operators (FBOs) do not detect – or do not report – these breaches. It is unknown whether the FBO failed to monitor their cameras properly or whether they monitored them and simply failed to take sufficient action to prevent the abuse. We have no insight into the access granted to the Official Vet, in order to monitor the footage."[30]

**36.** Mae'n dadlau, ochr yn ochr â gwneud y defnydd o deledu cylch cyfyng yn orfodol, ei bod yn hanfodol i wneud corff annibynnol yn gyfrifol am fonitro'r deunydd ffilm.

> "[…] Farmers Fresh slaughterhouse had CCTV installed but without rules pertaining to its placement, use, operation and storage it cannot truly be deemed an effective tool."[31]

**37.** Fel rhan o'i gyflwyniad diweddaraf, rhannodd Animal Aid ganlyniadau cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaed i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Ebrill 2019. Dangosodd y rhain, rhwng 5 Ebrill 2017 a 21 Rhagfyr 2018, y bu 76 o achosion yn ymwneud â lles anifeiliaid wedi'u recordio mewn lladd-dai yng Nghymru. Mae'r rhain yn cael eu categoreiddio yn ôl difrifoldeb yn erbyn pedair lefel, gyda 28 o achosion wedi'u recordio fel "diffyg cydymffurfio difrifol" a 15 arall a ystyriwyd fel "diffyg cydymffurfio critigol". Arweiniodd y mwyafrif helaeth o'r achosion hyn (65) at gyhoeddi "cyngor llafar", ac arweiniodd dau at gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi Lles, a chyfeiriwyd dau ar gyfer ymchwiliad.[32]

**38.** Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddwyd rhagor o honiadau yn y wasg mewn perthynas â thrin anifeiliaid yn lladd-dy Farmers Fresh yn Wrecsam. Roedd y rhain yn ymwneud â deunydd ffilmio a recordiwyd, yn ôl pob golwg, ym mis Gorffennaf

---

[29] Animal Aid i'r Pwyllgor, 17 Medi 2019

[30] Animal Aid i'r Pwyllgor, 17 Medi 2019

[31] Animal Aid i'r Pwyllgor, 17 Medi 2019

[32] Animal Aid i'r Pwyllgor, 17 Medi 2019

a mis Awst 2019 gan Animal Equality UK, ar adeg pan oedd y safle eisoes yn destun ymchwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd o ganlyniad i ddeunydd ffilmio cudd blaenorol.[33]

# 5. Cyllid ar gyfer monitro a gorfodi

**39.** Un o'r materion olaf a drafodwyd gan y Pwyllgor yw digonolrwydd y cyllid sydd ar gael ar gyfer monitro a gorfodi safonau lles mewn lladd-dai. Codwyd hyn mewn perthynas â theledu cylch cyfyng a lles anifeiliaid mewn lladd-dai yn fwy cyffredinol. Ym mis Tachwedd 2019, dechreuodd y Pwyllgor ystyried deiseb a oedd yn galw'n benodol ar Lywodraeth Cymru i "ddarparu cyllid digonol i ddiogelu lles anifeiliaid fferm adeg eu lladd yng Nghymru".[34]

**40.** Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn darparu rheolaethau swyddogol mewn "sefydliadau cig cymeradwy" ar ran Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Yng Nghymru, mae'r gweithgarwch hwn yn dod o dan goncordat a chytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Llywodraeth Cymru. O dan y cytundeb lefel gwasanaeth, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymgymryd â gweithgarwch, sy'n cynnwys archwiliadau lles anifeiliaid, archwiliadau cyffredinol, camau gorfodi, trwyddedu ac addysg.

**41.** Mae'r deisebydd ar gyfer deiseb 2019 wedi rhoi gwybodaeth a gafwyd mewn ymateb i'r un cais Rhyddid Gwybodaeth y cyfeirir ato yn Adran 3:

> "For 2018/2019 the Welsh Government provided just £20,187 to enable the FSA to ensure animal welfare controls are implemented across all these 23 slaughterhouses. For the three years prior to this (i.e. 2015 to 2018) it provided in total only £33,627 (i.e. approximately £11,200 per annum)."[35]

**42.** Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor, cadarnhaodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig fod y cyllid a ddyrannwyd yn ddiweddar i'r Asiantaeth Safonau Bwyd at ddibenion rheoli llesiant fel a ganlyn:

- 16/17 - £ 7,402.96

---

[33] Mail Online, Shocking footage reveals sheep getting trapped in a conveyor belt and live animals trapped under carcasses at a Welsh slaughterhouse ALREADY under investigation for mistreating livestock, 4 Tachwedd 2019

[34] P-05-916 Cyllid digonol i ddiogelu lles anifeiliaid fferm yn lladd-dai Cymru

[35] Y deisebydd at y Pwyllgor, 12 Tachwedd 2019

- 17/18 - £ 14,678.97
- 18/19 - £ 20,187.00
- 19/20 (wedi'i ddyrannu) - £ 31,906.33 (gwariant presennol - £18,612).[36]

**43.** Dywedodd y deisebydd hefyd, cyn 2018/19, mai £50,000 oedd cyfanswm y cyllid blynyddol cyfun a roddwyd gan DEFRA a Llywodraeth Cymru i alluogi rheolaethau lles anifeiliaid ar draws 278 o ladd-dai sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr.[37]

**44.** Tynnodd y deisebydd sylw'r Pwyllgor hefyd at ffigurau a ddyfynnwyd mewn diweddariad a baratowyd ar gyfer cyfarfod bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a gynhaliwyd ym mis Medi 2018:

> "Under the Service Level Agreement with Defra and Welsh Government, in 2017/18 FSA received a contribution of £50k which does not meet the true costs of welfare official controls which we conservatively estimate to be in excess of £1m, only a small proportion of which is recovered from industry."[38]

**45.** Mae'r un diweddariad yn nodi bod y cyllid cyfunol wedi'i gynyddu i £170,000 ar gyfer 2018/19, gyda'r swm cynyddol yn cyfrannu at archwiliad blynyddol â thema lles, yr amser a ganiateir i Filfeddygon Swyddogol [OVs] gofnodi achosion o ddiffyg cydymffurfio, atgyfeiriadau ar gyfer ymchwilio, gorfodi lles cyffredinol, a chostau gweithredu a gorfodi teledu cylch cyfyng yn Lloegr (cyfraniad gan Defra yn unig).

**46.** Daw'r deisebydd i'r casgliad a ganlyn:

> "The levels of funding provided by the Welsh Government to enable animal welfare controls in slaughterhouses are entirely inadequate to do so in relation to the range of controls needed, the number of slaughterhouses to be covered and the many millions of animals 'processed' by them each year."[39]

---

[36] Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at y Pwyllgor, 3 Rhagfyr 2019

[37] Y deisebydd at y Pwyllgor, 12 Tachwedd 2019

[38] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Diweddariad ar Les Anifeiliaid, cyfarfod bwrdd 19 Medi 2018

[39] Y deisebydd at y Pwyllgor, 12 Tachwedd 2019

## CASGLIADAU

Rydym yn cydnabod y gwaith a wnaed gan Weinidogion olynol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y cymorth ariannol presennol a ddarperir i weithredwyr lladd-dai yng Nghymru. Rydym hefyd yn nodi datganiad y Gweinidog ei bod yn barod i ddeddfu yn y dyfodol os na fydd y dull gwirfoddol presennol yn cael yr effaith a ddymunir. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod dull gwirfoddol yn unig yn ddigonol, yn enwedig os nad yw'n cael ei ategu gan drefn archwilio a monitro sy'n addas i'r diben gydag adnoddau digonol.

Felly, yn seiliedig ar ein hystyriaeth o'r ddwy ddeiseb a'r dystiolaeth a gawsom, credwn fod achos cryf dros gyflwyno cylch teledu cyfyng eang er budd lles anifeiliaid ym mhob rhan o ladd-dai Cymru lle mae anifeiliaid yn cael eu cadw a'u lladd. Ein barn ni yw y dylai Llywodraeth Cymru weithredu i wneud teledu cylch cyfyng yn orfodol mewn lladd-dai yng Nghymru, ac y dylai hyn gael ei ategu gan drefn monitro a gorfodi sydd â'r adnoddau priodol.

Rydym o'r farn nad yw lefel y cyllid presennol a roddir i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, ar ei ben ei hun, yn ddigon i roi hyder bod safonau lles yn destun gwaith craffu priodol, ac yn cael eu cynnal mewn lladd-dai yng Nghymru.

Rydym yn pryderu bod ymchwiliadau diweddar i'r ffordd y caiff anifeiliaid eu trin adeg eu lladd yn dod o dystiolaeth a gasglwyd o ddeunydd ffilmio cudd, yn hytrach na thrwy'r prosesau monitro presennol.

Felly rydym wedi dod i'r casgliadau a ganlyn:

**Argymhelliad 1.** Bod Llywodraeth Cymru ei gwneud yn orfodol i osod a chynnal systemau teledu cylch cyfyng ym mhob lladd-dy yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys pob rhan o'r adeilad sy'n ymwneud â dal neu brosesu anifeiliaid byw, a dylid ategu hyn gan ofynion o ran lleoliad a gweithredu camerâu, cadw a storio recordiadau, ac argaeledd recordiadau i'w harchwilio.

**Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd, neu gorff priodol arall, yn cael lefel ddigonol o adnoddau i fonitro a gorfodi'r system fonitro teledu cylch cyfyng newydd mewn lladd-dai yng Nghymru.

**Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cael lefel ddigonol o adnoddau i wneud ei gwaith i sicrhau lles anifeiliaid yng Nghymru, gan ystyried amcangyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd o ran y gost ar gyfer darparu rheolaethau swyddogol.